Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Health, Social Care and Early Years Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prif Swyddogion Gweithredol GIG Cymru

Ein Cyf/Our Ref: WHC/2025/049

19 Rhagfyr 2025

Annwyl Gydweithiwr,

**WHC/2025/049: Cylchlythyr Iechyd Cymru mewn perthynas â datblygu a gweithredu Polisi Teithio i Gleifion**

Cyhoeddwyd y Canllawiau Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, sydd wedi eu hadnewyddu, ym mis Ebrill 2025. Er nad yw'r egwyddorion sylfaenol wedi newid, ychwanegwyd rhai elfennau a chryfhawyd rhai eraill i wella sut yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â chleifion, yn ogystal â diogelu capasiti'r GIG a gwneud y gorau ohono. Er mwyn rheoli llwybrau Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth mewn modd teg, cywir, a chyson, disgwylir i'r holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ddiweddaru eu polisïau teithio lleol yn unol â'r canllawiau newydd a'r ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys gofal a ddarperir gan wasanaethau allanol a gomisiynir a modelau rhanbarthol, lle mae disgwyliad y bydd yn rhaid i gleifion deithio'n bellach ar gyfer eu triniaeth. Cydnabyddir y gall hyn fod yn her i rai, ac mae'n hanfodol bod y polisi a'r wybodaeth a ddarperir i gleifion yn eu galluogi i gael mynediad at ofal yn unol â'u hanghenion unigol.

Byddwn yn gofyn i bob bwrdd iechyd sicrhau bod y diweddariadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'w polisïau lleol a'r wybodaeth ofynnol a ddarperir i'r cyhoedd, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Pholisi Gofal a Gynlluniwyd Llywodraeth Cymru erbyn yr amserlenni a nodwyd.

Yn gywir

Lesley Law

**Lesley Law**

Pennaeth Polisi Gofal wedi'i Gynllunio
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar
Llywodraeth Cymru

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Ffôn • Tel 0300 062 5560
Lesley.Law@llyw.cymru/
Lesley.Law@gov.wales
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Cyffordd Llandudno • Llandudno Junction
LL31 9RZ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Copïau at:
Jacqueline Totterdell, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru
Nick Wood Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru
Jeremy Griffiths, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru
Andrew Sallows, Cyfarwyddwr Cenedlaethol - Gofal wedi'i Gynllunio, Perfformiad a Gwella'r GIG
Philip Barry, Cyfarwyddwr Gwella Perfformiad Gweithredol, Perfformiad a Gwella'r GIG
Liz Davies, Arweinydd Polisi Gofal a Gynlluniwyd, Perfformiad a Gwella'r GIG